

CYNRYCHIOLI CYMRU

Canllawiau a Chwestiynau Cyffredin

Ymgeisio

Sut mae gwneud cais?

Er mwyn cyflwyno cais ar gyfer rhaglen **Cynrychioli Cymru** fe fyddwn ni angen:

1. Ffurflen gais wedi'i chwblhau

Bydd y **Ffurflen Gais hon** yn gofyn ichi am wybodaeth bersonol, a gwybodaeth am eich gyrfa fel awdur hyd yma. Byddwn hefyd yn gofyn am eich amcanion ac uchelgais fel awdur proffesiynol a pham eich bod yn credu y byddai Rhaglen **Cynrychioli Cymru** yn eich helpu ar y'r adeg hon yn eich gyrfa ysgrifennu.

2. Enghraifft o'ch ysgrifennu creadigol

Bydd y ffurflen gais yn gofyn i chi uwchlwytho un enghraifft o'ch ysgrifennu creadigol gorau. Rydyn ni'n awgrymu rhwng **2,000 a 4,000 o eiriau o ryddiaith** neu **rhwng 4 ac 8 cerdd**. Peidiwch ag anfon dim sy'n rhy hir.

Os yw eich gwaith ar y gweill yn nofel graffeg, rydym ni'n awgrymu eich bod yn anfon crynodeb o'r stori a sampl o dudalennau'r byrddau stori wedi'u cwblhau (gyda thestun a darluniau).

Os yw'n well gennych anfon perfformiad o'ch gwaith ar lafar, yn hytrach na darn ysgrifenedig, mae croeso i chi anfon fideo o'ch gwaith creadigol. Cysylltwch â post@llynyddiaethcymru.org am ragor o wybodaeth. Noder bydd angen i chi gwblhau'r ffurflen gais yn ogystal ag anfon fideo o'ch gwaith.

Noder y gallwn asesu gwaith creadigol a anfonir gyda'ch cais yn y Gymraeg neu yn Saesneg. Os ydych yn anfon eich gwaith creadigol mewn iaith arall, bydd angen i chi ddarparu cyfieithiad o'ch gwaith i'r Gymraeg neu Saesneg hefyd.

Genres llenyddol

Rydym yn croesawu samplau o waith ar y gweill yn y genres canlynol: barddoniaeth, barddoniaeth lafar neu rap, ffuglen (nofelau a straeon byrion), llenyddiaeth plant, llenyddiaeth pobl ifanc, nofelau graffeg a rhyddiaith ffeithiol greadigol.

Yr Asesiad

Sut caiff fy nghais ei asesu?

Bydd eich cais yn cael ei asesu gan banel o arbenigwyr annibynnol a fydd yn asesu'r elfennau canlynol:

- Ansawdd a photensial creadigol y gwaith ysgrifenedig a gyflwynwyd gennych, ynghyd â dyfeisgarwch a ffresni'r syniadau a'r llais yn eich cais a'ch gwaith creadigol
- Pa mor addas yw'r rhaglen i chi fel awdur ar yr adeg hon yn eich gyrfa.

Mae ein cylch gwaith fel sefydliad cenedlaethol dwyieithog yn ein hymrwymo i sicrhau bod amrywiaeth o awduron yn gallu achub ar ein cyfleoedd. Oherwydd hyn, efallai y bydd y panel hefyd yn ystyried iaith, cydbwysedd daearyddol, a chynrychiolaeth ac amrywiaeth o fewn y grŵp.

Cwestiynau Cyffredin

Os oes gennych chi unrhyw gwestiwn am raglen **Cynrychioli Cymru**, darllenwch ein Cwestiynau Cyffredin isod. Os na allwch chi weld yr ateb i'ch cwestiwn chi, cysylltwch â ni i gael rhagor o wybodaeth.

Cymhwysedd

Pwy sy'n gymwys i wneud cais am y cyfle hwn?

Unigolion sydd o gefndiroedd incwm isel sydd am ddatblygu eu sgiliau mewn unrhyw ffurf lenyddol. Rhaid i ymgeiswyr fod dros 18 oed, ac yn byw yng Nghymru ar hyn o bryd.

Noder nad yw'r rhaglen hon o reidrwydd wedi ei bwriadu ar gyfer unigolion **sydd ar incwm isel ar hyn o bryd**, ond yn hytrach fe'i bwriedir ar gyfer unigolion **o gefndiroedd incwm isel**. Mae ein diffiniad o gefndir incwm isel yn cynnwys unigolion oedd yn gymwys ar gyfer prydau bwyd ysgol am ddim, neu roedd eu rhieni/gwarcheidwaid â swyddi cyflog isel, yn ddi-waith neu yn derbyn budd-daliadau (yn cynnwys lwfansau anabledd) pan roedd yr ymgeisydd yn 14 oed. Caiff data crai economaidd-gymdeithasol (yn cynnwys hunan-asesiad ac asesiad [SEC](#)) ei gasglu oddi wrth ymgeiswyr, er mwyn gwirio cymhwysedd ar gyfer y rhaglen hon.

Rhaid i ymgeiswyr fyw yng Nghymru adeg ymgeisio, a thrwy gydol y rhaglen 12 mis.

Nid yw myfyrwyr (rhan-amser neu amser llawn) yn gymwys am nawdd o ran y cynllun hwn. Mae hyn yn amod gan ein noddwyr, Y Loteri Genedlaethol trwy Gyngor Celfyddydau Cymru.

Bydd Llenyddiaeth Cymru yn dyfarnu cymhwysedd ceisiadau, a bydd ein dyfarniadau yn derfynol.

Oes angen profiad blaenorol arnaf i wneud cais?

Nac oes, dim ond angen esiampl o'ch ysgrifennu creadigol gorau. Rydyn ni'n croesawu ceisiadau gan bobl sy'n newydd i'r byd ysgrifennu, neu efallai eich bod wedi cychwyn ar eich taith ac yn chwilio am gymorth i gyrraedd y lefel nesaf. Bydd y Panel Asesu yn edrych ar botensial ymgeiswyr, a dyfeisgarwch.

Ydw i'n rhybrofiadol i wneud cais?

Yn bennaf, cyfle i awduron newydd, egin awduron, neu'r rheiny sydd ag ychydig o brofiad yw hwn.

Fodd bynnag, fel awdur ychydig mwy profiadol, efallai bod yna rwystrau sy'n eich atal rhag cyrraedd eich llawn botensial. Neu efallai eich bod am arbrofi â ffurf lenyddol neu iaith wahanol. Bydd gan bawb ddehongliad gwahanol o ddiffiniad awdur newydd neu awdur mwy profiadol yng nghyd-destun gyrfa. Os ydych yn ansicr os mai dyma'r rhaglen addas i chi ar yr adeg hon o'ch gyrfa, cysylltwch gyda ni er mwyn trafod eich taith.

Ai cyfle i awduron ifanc yn unig yw hwn?

Mae hwn yn gyfle i awduron o bob oed (dros 18 oed) sydd yn byw yng Nghymru.

Ym mha iaith y caiff y rhaglen hon ei darparu?

Bydd yr holl ddiwyddiadau'n cael eu cynnal drwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg, yn ddibynnol ar iaith y garfan o awduron. Fodd bynnag, os ydych chi'n ysgrifennu'n greadigol mewn unrhyw iaith arall, byddwn ni'n ceisio helpu drwy eich paru â mentor addas sydd hefyd yn rhugl yn yr iaith honno. Sylwch fodd bynnag mai dim ond enghreifftiau o ysgrifennu creadigol sydd wedi'u cyflwyno yn y Gymraeg neu yn Saesneg y gallwn ni eu hasesu fel rhan o'r broses ymgeisio. Fe allwn ni dderbyn eich gwaith gwreiddiol sydd wedi'i gyfieithu a'i gyflwyno yn y Gymraeg neu'n Saesneg.

Gall awduron nad ydyn nhw'n rhugl eu Cymraeg ond sy'n chwilio am gyfle i wella'u sgiliau ysgrifennu a'u sgiliau creadigol yn Gymraeg hefyd wneud cais, a byddan nhw'n cael eu cefnogi o dan y rhaglen hon. Wrth ddewis yr awduron llwyddiannus, bydd potensial creadigol rhagorol yn bwysicach na chywirdeb iaith.

Rydw i wedi cael Ysgoloriaeth neu wedi bod yn rhan Gynllun Mentora Llenyddiaeth Cymru o'r blaen. Oes modd imi wneud cais?

Oes. Rydyn ni am i'r rhaglen hon fod yn agored i gynifer o awduron cymwys â phosibl.

Pam eich bod chi'n blaenoriaethu ceisiadau gan awduron o gefndiroedd incwm isel?

Rydym eisiau creu diwylliant llenyddol sydd yn wirioneddol adlewyrchu ystod ac amrywiaeth poblogaeth Cymru. Byddwn yn parhau i roi pwyslais ar ddatblygu a rhoi llwyfan i bobl sydd yn wedi eu tangynrychioli ac sydd wedi profi anffafiaeth hanesyddol a systemig, hiliaeth, ablaeth ac anffafiaeth. Fe ddylai pobl sydd ddim yn gweld eu hunain yn y llenyddiaeth maent yn ei ddarllen a'i glywed fedru gweld awduron sydd â'r un profiad byw, mewn cyfrolau wedi eu cyhoeddi, mewn perfformiadau o waith, fel lladmereddion cymunedol, arweinyddion gweithdai, tiwtoriaid ysgrifennu creadigol, ac fel Beirdd Cenedlaethol.

Mae cael cynrychiolaeth deg a chydaddoldeb yn broses hirdymor, ac mae ein hymrwymiad i flaenoriaethu hyn yn barhaus. Mae creu diwylliant o leisiau sy'n cael eu tangynrychioli a fydd

yn ysbrydoli eraill yn mynd i gymryd amser i'w gyflawni, ond rydym yn ymrwymo i gyflwyno newidiadau systemig.

Bydd Cynrychioli Cymru, ein prif raglen ddatblygu awduron yn parhau i esblygu. Bob blwyddyn, byddwn yn buddsoddi mewn grŵp blaenoriaeth, sy'n uniaethu â nodwedd benodol yn ymwneud â thangynrychiolaeth (ac yn aml gyda mwy nag un nodwedd). Byddwn yn darparu rhaglen bwrpasol er mwyn cynorthwyo'r awduron wireddu eu hamcanion. Bydd hyn yn creu ffrwd o dalent unigryw ac amrywiol o Gymru, a fydd yn gallu cynrychioli ein diwylliant llenyddol yma a thramor. Bydd ein hymrwymiad i'r awduron hyn yn parhau ar ôl diwedd y rhaglen, gan y byddwn yn parhau i'w cefnogi yn ystod y blynyddoedd i ddod, a'u hyrwyddo fel llysgenhadon Llenyddiaeth Cymru, a thros lenyddiaeth Cymru. Roedd rhifyn cyntaf **Cynrychioli Cymru** yn canolbwyntio ar awduron o liw. Bydd ail rifyn rhaglen Cynrychioli Cymru yn canolbwyntio ar awduron o gefndir incwm isel. Bydd nifer ohonynt yn wynebu heriau eraill yn ogystal, oherwydd eu cenedligrwydd, anabledd, rhywedd, hunaniaeth rhyweddol, oed, ffydd neu gred.

Pa genres llenyddol sy'n gymwys?

Rydym yn croesawu samplau o waith ar y gweill yn y genres canlynol: barddoniaeth, barddoniaeth lafar neu rap, ffuglen (nofelau a straeon byrion), llenyddiaeth plant, llenyddiaeth pobl ifanc, nofelau graffeg a rhyddiaith ffeithiol greadigol.

Rydyn ni hefyd yn croesawu awduron sydd â diddordeb mewn gwaith cyfranogi llenyddol a gweithdai gyda chymunedau a grwpiau, yn ogystal â datblygu eu gyrfa fel awdur.

Mae croeso hefyd i chi gyflwyno gwaith creadigol sy'n cyfuno genres llenyddol, ac nad oes modd ei roi'n daclus mewn un categori.

Rhaid i chi gyflwyno eich gwaith creadigol gwreiddiol, a hynny'n waith un awdur yn unig. Nid yw gwaith creadigol ar y cyd yn gymwys ar gyfer y rhaglen hon. Yr awdur biau'r hawlfraint ar ei (g)waith creadigol.

Y Broses Asesu

Pwy yw'r Panel Asesu?

Ar y Panel Asesu bydd amrywiaeth o unigolion sydd ag arbenigedd mewn llenyddiaeth, ysgrifennu creadigol, y diwydiant cyhoeddi yng Nghymru a thu hwnt, a/neu gynlluniau datblygu proffesiynol i awduron.

Ceir rhagor o wybodaeth am y [Panel Asesu ar ein gwefan](#).

Sut fyddwch chi'n asesu fy nghais?

Sgrinio proffil

Caiff pob cais ei wirio gan dîm Llenyddiaeth Cymru er mwyn sicrhau bod yr ymgeisydd yn gymwys ar gyfer y rhaglen hon. Defnyddir yr wybodaeth a nodir yn ymatebion i'r cwestiynau proffil, sydd yn dadansoddi cefndir economaidd-gymdeithasol.

Byddai o gymorth pe baech yn gallu cwblhau pob adran o'r Ffurflen Gais. Noder bod yr wybodaeth a ddarperir yn gwbl gyfrinachol, ac fe'i defnyddir ar gyfer asesiad mewnol yn unig.

Bydd Cadeirydd y Panel yn sifftio'r ceisiadau cymwys, ac yn dethol rhestr fer er mwyn i aelodau'r Panel eu hasesu.

Bydd y Panel yn asesu pob cais cymwys ar y rhestr fer ar wahân, ac yn dyfarnu marciau i bob ymgeisydd, yn ôl meini prawf penodol, sydd yn cynnwys edrych ar botensial ac ansawdd eich sampl gwaith creadigol, yn ogystal â pha mor addas yw'r rhaglen hon i'r anghenion rydych wedi eu mynegi yn eich cais.

Bydd y Panel Asesu hefyd yn ystyried cydbwysedd ieithyddol a daearyddol, a chynrychiolaeth wrth ddyfarnu a dethol ymgeiswyr ar gyfer y rhaglen hon.

Faint o leoedd bydd ar gael ar raglen Cynrychioli Cymru 2022-2023?

Mae 13 o leoedd ar gael ar raglen Cynrychioli Cymru 2022-2023.

Os byddaf i'n aflwyddiannus, a fyddaf i'n cael adborth?

Can ein bod ni'n disgwyl nifer o geisiadau, efallai na fydd modd inni roi adborth manwl i bob ymgeisydd. Fodd bynnag, os bydd hynny'n bosibl, byddwn ni'n rhoi llinell neu ddwy o adborth personol, ac yn eich cyngori am gyfleoedd eraill a allai fod ar gael gan Llenyddiaeth Cymru a'n partneriaid.

Rydym yn ymwybodol bod gohebiaeth ynglŷn â cheisiadau aflwyddiannus yn gallu cael effaith negyddol ar eich iechyd a'ch llesiant. Rydym yn ymrwymo i barchu a gwerthfawrogi pob cais unigol, gan roi sylw teilwng i bob un.

Bydd gan dîm bychan o staff Llenyddiaeth Cymru fynediad at eich gwaith creadigol. Yn unol â'n polisi o adnabod talent, a chyfeirio at ffynonellau eraill, efallai byddwn yn cysylltu â chi ynglŷn â chyfleoedd sy'n berthnasol i'ch gwaith creadigol a'ch profiad. I helpu Llenyddiaeth Cymru gydymffurfio â'r Ddeddf Gwarchod Data (GDPR), a wnewch chi gwblhau'r darn perthnasol ar ddiwedd y ffurflen gais, er mwyn rhoi gwybod i ni os **nad ydych** eisiau i Llenyddiaeth Cymru gysylltu â chi ynghylch cyfleoedd yn y dyfodol.

Pryd fyddaf i'n clywed a yw fy nghais i fod yn rhan o'r Rhaglen Datblygu Proffesiynol wedi bod yn llwyddiannus?

Bydd yr holl ymgeiswyr yn cael gwybod am benderfyniad y Panel Asesu erbyn Dydd Iau 24 Chwefror 2022.

Y Rhaglen

Beth yw Cynrychioli Cymru?

Mae **Cynrychioli Cymru** yn rhaglen 12 mis wedi ei llunio gyda'r nod o gynorthwyo awduron wireddu eu breuddwydion hirdymor. Bob blwyddyn, byddwn yn buddsoddi mewn carfan o awduron o grwp blaenoriaeth, sy'n uniaethu ag un nodwedd benodol (neu ragor) o ran tangynrychiolaeth, a byddwn yn darparu rhaglen arbennig er mwyn cynorthwyo'r awduron wireddu eu hamcanion. Roedd rhifyn cyntaf Cynrychioli Cymru yn canolbwyntio ar awduron o liw. Bydd yr ail rifyn o raglen Cynrychioli Cymru yn canolbwyntio ar unigolion o gefndir incwm isel.

Bydd y garfan a detholir ar gyfer y rhaglen yn cymryd rhan mewn 12 gweithdy datblygu proffesiynol, 12 ystafell ysgrifennu i rannu a chynnig beirniadaeth ar waith ar y gweill, 4 dosbarth meistr ar ysgrifennu creadigol, a byddant yn derbyn sesiynau mentora un-i-un gydol

y rhaglen. Bydd y garfan hefyd yn mynychu digwyddiadau a gweithgareddau o fewn y sector yng Nghymru a thu hwnt.

Noddir rhaglen ddatblygu Cynrychioli Cymru gan y Loteri Genedlaethol trwy Gyngor Celfyddydau Cymru.

Faint o fy amser fydd angen imi ei dreulio ar y Rhaglen, os byddaf yn cael fy nerbyn i fod yn rhan ohoni? A allaf ymgeisio os byddaf yn gweithio neu os bydd gennyf gyfrifoldebau gofal?

Os oes gennych gyfrifoldebau gofal, neu os ydych yn gweithio, mae croeso i chi ymgeisio. Bydd y rhaglen yn cael ei chreu ar y cyd â'r awduron a gaiff eu dewis, fel ein bod yn trefnu amseroedd a dyddiadau sy'n gyfleus i bawb. Caiff y rhan fwyaf o'r digwyddiadau eu cynnal gyda'r nos neu ar benwythnosau, a byddwn yn recordio digwyddiadau digidol gellir eu gwyllo wedyn, os nad oes modd mynychu'r digwyddiad byw. Bydd tîm Llenyddiaeth Cymru wrth law i gefnogi eich gyrfa fel awdur ac i sicrhau eich bod pob aelod o'r criw yn manteisio ar holl gyfleoedd y rhaglen.

Rydyn ni'n amcangyfrif y byddwn yn trefnu gweithgareddau ac yn gosod tasgau a fydd yn gofyn am rhwng 10 ac 13 diwrnod llawn o'ch amser yn ystod y flwyddyn, ond bydd nifer o'r digwyddiadau hyn yn cael eu trefnu i osgoi cyd-daro ag oriau gwaith. Chi sydd i benderfynu faint o oriau ychwanegol y bydd angen i chi eu neilltuo wedyn tuag at eich prosiectau ysgrifennu eich hun yn ystod y flwyddyn.

Pryd fydd y rhaglen yn cael ei chynnal? Oes gennych chi fwy o fanylion a dyddiadau ar gyfer y digwyddiadau?

Bydd y rhaglen yn cael ei chynnal dros 12 mis rhwng dechrau mis Mawrth 2022 tan ddiwedd Chwefror 2023, gydag o leiaf dau ddigwyddiad y mis yn cael ei gynnal.

Chi sydd i drefnu amseroedd a dyddiadau addas ar gyfer eich sesiynau un-i-un gyda'ch mentor personol, gan gyfarfod wyneb yn wyneb (os yn ddiogel) neu'n rhithiol.

Beth fydd yn digwydd ar ôl diwedd y rhaglen 12 mis?

Ar ôl i'r rhaglen 12 mis ddod i ben, byddwn yn parhau i gynnig cefnogaeth i'r awduron trwy gadw mewn cysylltiad, cynnig cyngor, a gwahodd yr awduron i gyfleoedd hyfforddiant a rhwydweithio pellach. Mae hwn yn fuddsoddiad hirdymor yn natblygiad yr awduron.

A fydd angen imi deithio i ddigwyddiadau?

Bydd hyn yn dibynnu ar ffactorau gan gynnwys canllawiau'r llywodraeth ar gyfyngiadau COVID-19. Disgwylir y bydd y rhan fwyaf o'r digwyddiadau'n cael eu cynnal yn rhithiol, er mwyn sicrhau gall pob un fynychu, lle bynnag y maent. Mae'n bosibl y byddwn ni'n trefnu rhai diwrnodau hyfforddi mewn lleoliad yng Nghymru gyda llety dros nos, a/neu gwrs neu encil yng Nghanolfan Ysgrifennu Tŷ Newydd.

Byddwch chi hefyd yn cael cyllideb docynnau i'w gwario ar docynnau i wyliau llenyddol a digwyddiadau o'ch dewis chi.

Mae gen i anabledd neu salwch a allai ei gwneud hi'n anodd imi gymryd rhan. A allwch chi helpu?

Wrth gwrs fe allwn helpu. Cysylltwch â ni i drafod unrhyw bryderon neu ofynion ymlaen llaw ac yn ystod y rhaglen. Mae Cronfa Mynediad wedi'i chreu i alluogi awduron sydd ag anableddau neu salwch, a gofynion ychwanegol o ran mynediad, i gymryd rhan llawn mewn digwyddiadau.

A fydd angen imi gyflwyno darn o waith gorffenedig ar ddiwedd y 12 mis?

Ddim o reidrwydd. Rhaglen fydd hon i roi'r adnoddau y bydd eu hangen arnoch i ddatblygu eich crefft yn y tymor hir, ac i ddatblygu'n broffesiynol fel awdur.

Ar ddechrau'r rhaglen, fe fyddwn ni'n gweithio gyda chi i osod amcanion a nodau y bydd modd i chi eu cyflawni, gan eich helpu i lwyddo yn hynny o beth. Dylai un o'ch amcanion ymwneud â datblygu eich gwaith ar y gweill yn ystod y rhaglen. Bydd sesiynau misol yr Ystafell Ysgrifennu yn rhoi cyfle i chi rannu eich gwaith gyda'r garfan ac efallai byddwch am ddefnyddio hyn fel nod er mwyn cynhyrchu gwaith bob mis. Bydd hefyd cyfle i chi ymgynghori gydag aelod o staff Llenyddiaeth Cymru bob tri mis, er mwyn trafod eich datblygiad.

Ymholiadau Cyffredinol

Dydw i ddim yn gymwys i ymgeisio, ond mae diddordeb gen i mewn datblygu fy ngyrfa fel awdur. Sut allwch chi helpu?

Ceir gwybodaeth ar ein [gwefan](#) ynglŷn â'r cyfleoedd sydd gennym er mwyn helpu awduron ddatblygu eu crefft a'u gyrfaedd. Fel arall, mae croeso i chi gysylltu â ni er mwyn trafod eich anghenion penodol.

Lle bo hynny'n bosib, byddwn yn cyfeirio awduron at gyfleoedd eraill o fewn y sector Llenyddiaeth.

A yw Ysgoloriaethau i Awduron a Chynllun Mentora Llenyddiaeth Cymru ar gael eleni?

Rydym eisiau i ddiwylliant llenyddol Cymru gynrychioli rychwant ac amrywiaeth ein poblogaeth. Byddwn yn parhau i roi pwyslais ar ddatblygu a rhoi llwyfan i awduron sydd wedi eu tangynrychioli, ac sydd wedi profi anghydraddoldeb hanesyddol a systemig, hiliaeth, abled, ac anffafiaeth.

Rydym wedi meithrin ymagwedd weithredol er mwyn creu newid o fewn y sector. Yn ystod 2020, fe wnaethom adolygu ac ailwampio ein cynllun Mentora ac Ysgoloriaethau er mwyn datblygu Cynrychioli Cymru, ein rhaglen newydd datblygu proffesiynol i awduron dros gyfnod o 12 mis, sy'n cynnwys nawdd ariannol a sesiynau mentora. Roedd rhifyn cyntaf y rhaglen yn canolbwyntio ar awduron o liw. Bydd yr ail rifyn yn canolbwyntio ar awduron o gefndir incwm isel, a bydd nifer hefyd yn wynebu heriau amrywiol oherwydd eu cenedligrwydd, anabledd, hunaniaeth rhyweddol, ffydd neu gred. Bydd ceisiadau ar gyfer ail rifyn Cynrychioli Cymru yn agor yn ystod Hydref 2021, a bydd yn rhaglen yn dechrau fis Mawrth 2022, ac yn parhau tan ddiwedd Chwefror 2023.

Mae ein rhaglen **Cynrychioli Cymru** yn ddatblygiad pwysig i Llenyddiaeth Cymru, wrth i ni geisio cyflwyno amrywiaeth i ddiwylliant llenyddol Cymru, a sicrhau mynediad teg a chyfartal i'r sector.

Mae cyflawni cydraddoldeb a gwell diwylliant o leisiau sydd wedi eu tangynrychioli a fydd yn ysbrydoli eraill yn broses hirdymor. Rydym yn canolbwyntio ar ymdrechu i gyflwyno newid systemig, a bydd ein hymrwymiad i'r gwaith hwn yn barhaus.

Ariennir Rhaglen Ddatblygu **Cynrychioli Cymru** gan y Loteri Genedlaethol trwy Gyngor Celfyddydau Cymru.